Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfairpwllgwyngyll
# Llanfairpwll
# Ynys Mon
# LL61 5TX

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref Llanfairpwllgwyngyll ar Ynys Môn, mewn ardal nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Mae 283 o ddisgyblion o bedair i 11 oed yn yr ysgol. Mae tua 70% ohonynt â'r Gymraeg yn brif iaith y cartref, ac mae pump o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae tri o'r rheiny'n siarad iaith arall yn y cartref. Daw tua chwarter y disgyblion o du allan i ddalgylch arferol yr ysgol.

Mae gan 4.6% o'r disgyblion hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim, sydd yn is na chyfartaleddau'r Awdurdod Lleol a Chymru. Mae 32 disgybl (11.2%) ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan dri disgybl ddatganiad o anghenion arbennig. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysg.

Mae 13 o athrawon amser llawn yn yr ysgol gan gynnwys y pennaeth, a gafodd ei benodi yn 1991. Mae un uwch gymhorthydd, a phump cymhorthydd dosbarth yn cefnogi'r dysgu yng nghyfnod allweddol 1, mae un cymhorthydd dosbarth yn gweithio ym mlynyddoedd tri a phedwar, ac mae pedwar cymhorthydd anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanfairpwllgwyngyll yw £2,685 sy'n cymharu gydag uchafswm o £15,158 ac isafswm o £2,685 ar gyfer ysgolion cynradd yn Ynys Môn. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl isaf o'r 52 ysgol gynradd yn Ynys Môn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad cyfredol yn dda oherwydd mae'r:

- disgyblion yn cyrraedd safonau da yn gyson ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol llwyddiannus;
- disgyblion o bob oed yn cyfathrebu i safon uchel iawn ar lafar, ac yn meddu ar sgiliau llythrennedd da;
- disgyblion yn datblygu'n unigolion crwn a gweithgar sy'n barod eu cyfraniad i waith yr ysgol o fewn eu dosbarthiadau, ac mewn gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol;
- ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oed a gallu; ac
- mae'r amgylchedd, o'r cyfnod sylfaen hyd at unedau dysgu blwyddyn pump a chwech, yn darparu sbardun ardderchog sy'n ychwanegu'n fawr at brofiadau dysgu'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd mae:

- arweinyddiaeth y pennaeth, gyda chefnogaeth uwch dîm rheoli cryf, yn effeithio yn bositif ar rediad a threfniadaeth yr ysgol;
- holl staff yr ysgol yn gweithio'n effeithiol fel tîm o fewn eu hadrannau, o dan arweiniad eu cydlynwyr cyfnod allweddol a'r cydlynwyr pynciau, i gynnal a chodi safonau;
- yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ymestyn profiadau dysgu disgyblion ar draws yr ysgol; ac
- cyswllt da rhwng adroddiadau arweinwyr pwnc a'r cynlluniau datblygu pynciol, a'r cynllun datblygu ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella safonau, mae angen i'r ysgol:

A1 ddatblygu ei systemau hunan arfarnu ymhellach gan sicrhau mwy o ddefnydd o dystiolaeth uniongyrchol o gyflawniadau disgyblion;

A2 sicrhau bod yr arfer orau ym maes asesu ar gyfer dysgu'n cael ei ledaenu drwy'r ysgol;

A3 sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn cael eu gwahaniaethu'n briodol o fewn pob dosbarth;

A4 cynllunio mwy o gyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws meysydd y cwricwlwm; a

A5 chwrdd â'r gofynion statudol o ran cynnal cydaddoliad dyddiol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn llwyddo i gyrraedd safonau da yn gyson. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar eu gweithgareddau. Mae cynnydd clir a phriodol i'w weld yn eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu wrth iddynt dyfu drwy'r ysgol, ac maent yn cyrraedd safonau sydd yn unol â'u hoedran a'u gallu.

Ym mhob blwyddyn ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweithio'n llwyddiannus yn annibynnol. Mae'r plant yn ymateb yn frwdfrydig mewn gwersi ac yn ateb a holi cwestiynau yn hyderus.

Mae disgyblion yr uned dderbyn yn hyderus iawn wrth ddewis eu gweithgareddau dysgu ac yn ymroi'n frwdfrydig iddynt. Mae medrau llafaredd y disgyblion yn arbennig o gryf, ac mae medrau Cymraeg y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gyflym ac yn effeithiol iawn.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae bron bob un o'r disgyblion yn ymroi'n weithgar i'w tasgau dysgu, ac yn fedrus wrth ddefnyddio'u medrau llythrennedd yn Gymraeg. Mae disgyblion o bob ystod gallu yn cynhyrchu gwaith o safon da.

Yng nghyfnod allweddol 2, gall bron pob un o'r disgyblion gyd-drafod yn hyderus mewn parau neu grwpiau, a gyda'u hathrawon. Maent yn mynegi a chyfiawnhau barn yn effeithiol iawn ar lafar, ac yn darllen amrywiaeth dda o ddeunyddiau'n ddeallus. Mae eu medrau llafar yn datblygu'n effeithiol iawn, ac mae llawer o ddisgyblion blwyddyn pump a chwech yn cyfathrebu'n huawdl iawn mewn iaith goeth a graenus. Er bod rhai enghreifftiau da o weithgarwch ysgrifennu ar draws ystod o bynciau, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu digon o ddarnau estynedig yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae canlyniadau asesiadau statudol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, yn dangos bod y disgyblion yn cyrraedd safonau sy'n gyson uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniadau bechgyn a merched. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae cynnydd cyffredinol da yng nghyflawniadau disgyblion ym mhob pwnc craidd dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig neu uwch (Lefel 2+) yng nghyfnod allweddol 1 ym mhob maes yn gyson agos iawn at gyflawniadau'r teulu o ysgolion, gyda chanran sylweddol uwch na'r teulu yn cyflawni ar Lefel 3.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae'r nifer o ddisgyblion sydd yn cyflawni ar lefel uwch na'r disgwyl (Lefel 5) yng nghyfnod allweddol 2 ym mhob maes yn sylweddol uwch na'r teulu o ysgolion. Fodd bynnag, mae'r canran sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig (Lefel 4+) ychydig yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Wrth gymharu perfformiad yr ysgol yn cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt canran cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol yn gyson agos at y 25% o'r ysgolion gorau.

**Lles: Rhagorol**

Mae dealltwriaeth y disgyblion o faterion yn ymwneud â'u lles yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned lle mae disgyblion yn chwarae rhan flaengar mewn perthynas â chadw'n iach a diogel a'u cyfranogiad yn y gymuned leol. Er enghraifft, roedd siop 'Ffrwyth i Ffrind' disgyblion blwyddyn pump yn gwerthu ffrwythau i nifer dda o ddisgyblion yn ystod amser egwyl, ac roedd dealltwriaeth dda iawn gan y dysgwyr o'r angen i fwyta ffrwythau a llysiau yn hytrach na chreision a melysion.

Bron yn ddieithriad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth gref o sut i gadw'n heini a bwyta'n iach. Maent yn gwybod am beryglon rhith-fwlio ar lein a beth i'w wneud lle mae achos pryder. Mae'r modd gofalus a pharchus y mae'r disgyblion hŷn yn gwarchod disgyblion iau wrth iddynt gyrraedd safle'r ysgol yn meithrin synnwyr da iawn o ofal am eraill ac yn hyrwyddo diogelwch eu cyd-ddisgyblion.

Mae disgyblion yn cyfranogi'n llawn mewn gwersi ac maent yn ymrwymo'n frwdfrydig i'w tasgau. Mae safonau ymddygiad yn uchel yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn gyffredinol.

Mae lefelau presenoldeb yn 94.8%, ac yn cymharu'n ffafriol iawn ag ysgolion tebyg. Mae niferoedd da o ddisgyblion yn cyfranogi yn y gweithgaredd allgyrsiol.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn ymwneud ag ystod eang o faterion yn ymwneud â lles disgyblion ac yn y gymuned leol. Drwy'r cyngor ysgol, mae disgyblion yn meithrin dealltwriaeth dda o agweddau fel Masnach Deg. Mae'r cynghorau dosbarth, sydd yn enghraifft ardderchog o wrando ar lais disgyblion, a chyflwyniadau gan aelodau'r cyngor yn golygu bod gan y disgyblion i gyd ymdeimlad o berchnogaeth dros waith y cyngor. Mae hyn wedi arwain at benderfyniadau sy'n cael eu deall a'u perchnogi gan y disgyblion. Mae mentrau fel yr ymgyrch leihau gwastraff wedi codi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion yn ymwneud â'r gymuned leol.

Mae'r disgyblion yn datblygu'n unigolion cyflawn a gweithgar sy'n barod eu cyfraniad i waith yr ysgol o fewn eu dosbarthiadau ac mewn gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol. Maent yn arddangos balchder yn eu gwaith, yn dyfalbarhau ac yn ymhyfrydu yn llwyddiant eu cyfoedion.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu. Mae gan yr ysgol systemau cynllunio effeithiol sydd yn sicrhau fod cyfleoedd i blant y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 1, a'r adran iau brofi gweithgareddau amrywiol sydd yn eu herio i ddatblygu.

Mae'r medrau yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio ar draws yr ysgol. O fewn y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 mae gan ddisgyblion gyfleoedd cyson i siarad, trafod a mynegi barn.

Mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion mewn llawer o'r gwersi a arsylwyd. Ar ei orau, mae hyn yn effeithiol, ond nid yw bob amser yn diwallu anghenion disgyblion yn ddigonol. Cyfyng ar y cyfan yw'r cyfleoedd iddynt ysgrifennu yn estynedig yn Gymraeg a'r Saesneg.

Mae staff yr ysgol yn modelu iaith safonol ar gyfer y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn gryfder yn yr ysgol.

Mae addysg ar gyfer cynaliadwyedd a dinasyddiaeth byd eang yn derbyn lle blaenllaw. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd amrywiol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy gyfrwng yr agwedd hon. Trwy waith yr Ysgol Werdd a'r grŵp amgylcheddol, datblygodd yr ysgol yn uned sy'n ymwybodol o bwysigrwydd arbed ynni, ac ail gylchu. Mae'r gwaith o fewn Addysg Bersonol Chymdeithasol ac Addysg Grefyddol, y cysylltiadau â gwledydd sy'n datblygu'n economaidd, ynghyd â'r ymwybyddiaeth elusennol sydd ganddynt, yn sicrhau fod y disgyblion yn ddinasyddion goddefgar agored eu hagwedd.

**Addysgu: Da**

Mae'r gwersi yn cael eu cynllunio yn effeithiol. Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau yn ofalus er mwyn cyrraedd yr amcanion dysgu sydd ganddynt. Yn aml byddant yn cyfeirio yn ôl at ddysgu blaenorol, gan adeiladu ar y profiadau hyn. Maent yn holi cwestiynau pen agored effeithiol, sydd yn annog y disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Mae esiamplau o gynllunio cyfresi o wersi o fewn meysydd arbennig sy'n darparu llif o brofiadau. Mae hyn yn effeithiol ac yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn hwyluso'r dysgu. Mae profiadau amrywiol yn cael eu defnyddio fel sbardun effeithiol iawn ar gyfer darparu ffocws yn y Cyfnod Sylfaen. Mae systemau grwpio effeithiol yn cael eu defnyddio ar draws yr ysgol.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn sicrhau fod lefel addas o her o fewn gwersi. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau gwahaniaethol mewn nifer o wersi ond ar adegau mae diffyg gwahaniaethu effeithiol yn rhwystro rhai disgyblion rhag cyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae enghreifftiau da o farcio ac ymateb i waith disgyblion, sy'n helpu'r disgyblion i wybod sut i ddatblygu, ond nid oes digon o gysondeb ar draws dosbarthiadau. Mae ethos gefnogol iawn ym mhob dosbarth, ac awyrgylch weithgar lle mae pawb yn cael ei barchu.

Mae systemau asesu trwyadl gan yr ysgol sy'n crynhoi cynnydd y disgyblion ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd gofalus ac effeithiol o'r drefn asesu, a rhoddir pwyslais ar wneud defnydd o'r wybodaeth i fwydo camau nesaf datblygiad y disgyblion. Mae system dracio gyfrifiadurol yn cael ei defnyddio i fonitro cynnydd y disgyblion tros gyfnod, gan gynnwys disgyblion galluog a rhai sy'n debygol o dan-gyrraedd erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Mae'r disgyblion hyn yn derbyn cefnogaeth rheolaidd cyson gan gymorthyddion dosbarth i ddatblygu eu medrau.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu defnyddio ar adegau mewn gwersi ar draws yr ysgol. Mae nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion yn y mwyafrif o wersi. Fel y bo'n briodol, mae plant yn cael eu cynnwys yn y broses o gytuno meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, ni chynhwysir nodau na meini prawf ar gyfer medrau yn rheolaidd.

Mae defnydd effeithiol o strategaethau hunan asesu ac asesu cymheiriaid, yn arbennig ym mhen uchaf yr ysgol, lle mae enghreifftiau o waith ardderchog. Er hyn, nid yw'r arfer orau i'w weld yn gyson ar draws y dosbarthiadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Trwy amrywiol weithgareddau mewn cyfnodau addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg grefyddol, mae'r ysgol yn darparu arweiniad moesol ac ysbrydol briodol ar gyfer y disgyblion. Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn  o wahanol grefyddau a diwylliannau.  Mae'r disgyblion yn cael cyfle i fyfyrio o fewn cyfnod gwasanaeth dosbarth, adran neu ysgol gyfan. Ar adegau cynhelir gwasanaeth yr ysgol mewn capel neu eglwys yn y pentref er mwyn sicrhau awyrgylch addoli bwrpasol. Nid yw'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol o ran cynnal cydaddoliad dyddiol.

Mae'r plant yn astudio crefyddau eraill fel rhan o'u gwaith addysg grefyddol ac mae hyn, ynghyd â'r ymwybyddiaeth sydd ganddynt o wledydd sy'n datblygu'n economaidd, yn cael dylanwad cadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u hagweddau. Cesglir arian at achosion da, ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn ymfalchïo yn yr agwedd hon.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth addas ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol trwy berthynas glos gydag asiantaethau allanol sy'n cael eu gwahodd i mewn i roi cyngor arbenigol. Mae sesiynau 'te a thost' misol yn gyfle gwerthfawr i staff drafod pryderon am ddisgyblion penodol.

Mae unrhyw bryderon sydd gan staff ynglŷn â chynnydd disgyblion yn cael eu rhannu'n rheolaidd gyda'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r system dracio yn cyfoethogi'r llif gwybodaeth hwn.

Mae plant sydd ar ddatganiad yn derbyn cefnogaeth briodol yn unol â gofynion eu datganiadau. Mae grwpiau targed o blant sydd mewn perygl o dan-gyrraedd mewn llythrennedd yn derbyn sylw  priodol gan gymorthyddion a gwirfoddolwyr o dan arweiniad y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r profiadau hyn yn werthfawr iawn a, thrwy dargedu diffygion penodol disgyblion unigol, yn sicrhau cynnydd da yn eu medrau llythrennedd.   Mae ystod o brofion safonol a phrofion mewnol yn rhoi ffocws i  asesu cynnydd yn erbyn amcanion Cynlluniau Addysg Unigol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu rhannu gyda'r athrawon dosbarth a'r rhieni. Mae codi ymwybyddiaeth o broblemau dyslecsia yn flaenoriaeth o fewn y cynllun datblygu ysgol  ar gyfer eleni.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r polisi wedi ei ddiweddaru yn dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.  Mae hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff wedi cael ei gynnal 'ar lein', yn ôl gofynion yr ALI.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos gynhwysol, gefnogol a chyfeillgar yn bodoli yn yr ysgol. Yn ddieithriad, mae'r staff yn darparu model effeithiol o ymddygiad a moesau. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o ddiwylliannau a chrefyddau eraill. Mae gwersi addysg bersonol a chymdeithasol, gweithgareddau Addysg Grefyddol a'r Cyngor Eco, ynghyd â gweithgareddau grwpiau rhieni a llywodraethwyr oll yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr ethos hwn. Mae'r ysgol yn sicrhau fod cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag fo'i ryw na'i gefndir.

Cedwir yr adeilad mewn cyflwr ardderchog er fod rhannau ohono yn heneiddio. Mae'r rheolwyr yn rhoi pwyslais amlwg ar uwchraddio'r adeilad yn fewnol ac mae datblygiadau buddiol i'w gweld yn allanol. Un o'r rhain yw gardd sydd â byrddau i gynnal dosbarthiadau mewn tywydd braf, ac mae datblygiadau newydd i hybu gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn yr awyr agored ar flaen yr ysgol. Mae polisi hygyrchedd gan yr ysgol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn symbylus iawn, gyda phob ardal yn cael ei chadw'n daclus a threfnus, ac yn darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Er enghraifft, mae dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen wedi eu trefnu'n effeithiol iawn i sicrhau bod pob ardal gweithgarwch yn darparu amgylchedd ymestynnol i'r disgyblion ymchwilio'n ynddo yn annibynnol neu gyda chefnogaeth o ansawdd uchel gan athrawon a chymorthyddion dysgu. Yr un modd, yn yr Adran Iau mae arddangosfeydd deniadol ac effeithiol sy'n ychwanegu'n fawr at brofiadau'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn parchu'r amgylchedd hwn, ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth, gyda chefnogaeth yr uwch dîm rheoli yn effeithio yn bositif ar rediad a threfniadaeth yr ysgol. Mae holl staff yr ysgol yn gweithio'n effeithiol fel tîm o fewn eu hadrannau o dan arweiniad eu cydlynwyr cyfnod allweddol a'r cydlynwyr pynciau. Mae'r uwch dîm rheoli yn rhoi blaenoriaeth ac arweiniad ar gynnal a datblygu ethos Gymreig a Chymraeg yr ysgol, ac ar ddarparu gweithgareddau dysgu effeithiol ar gyfer y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae rhai o'r corff cyfredol wedi ymweld â'r ysgol i fonitro ychydig o wersi ac i drafod â'r cydlynwyr. Mae hyn wedi cael dylanwad ar y ddarpariaeth yn yr ysgol. Er enghraifft, datblygwyd rôl y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol o ganlyniad i ymweliad monitro o'r fath. Ar y cyfan, fodd bynnag, datblygu mae rôl y corff llywodraethwyr fel ffrind beirniadol sy'n herio'r ysgol.

Cymerodd yr ysgol gamau positif i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, yn arbennig y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol wedi gweithredu fel ysgol beilot ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae arweinwyr pwnc yn llunio adroddiadau manwl sy'n rhestru nodweddion da ac agweddau i'w datblygu drwy drafodaethau gydag athrawon dosbarth ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at sicrhau cydbwysedd a dilyniant yn ansawdd profiadau dysgu disgyblion.

Mae'r tîm rheoli wedi cynnal archwiliadau o samplau gwaith ysgrifenedig disgyblion. Arweiniodd hynny at nodi rhai agweddau i'w gwella. Mae ychydig o'r arweinwyr pwnc wedi ymweld â dosbarthiadau ar draws yr ysgol i arsylwi gwersi . Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r tîm rheoli yn gwneud digon o ddefnydd o dystiolaeth uniongyrchol o safonau gwaith a chyflawniadau disgyblion fel rhan o'r trefniadau sicrhau ansawdd.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn darparu trosolwg defnyddiol o'r ddarpariaeth mewn perthynas ag adrannau'r Fframwaith Arolygu, gan nodi'r ffynonellau tystiolaeth sy'n sail i'r casgliadau. Nid yw'r hunan-arfarniad yn rhoi digon o sylw i gloriannu effaith ar ddeilliannau a nodi agweddau y mae angen eu gwella.

Mae rhieni a disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i leisio barn ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r modd y newidiwyd fformat yr adroddiadau blynyddol yn enghraifft o'r modd y mae'r ysgol yn gwrando ac yn gweithredu ar lais y rhieni.

Mae cyswllt da rhwng adroddiadau'r arweinwyr pwnc a'r cynlluniau datblygu pynciol. Caiff y prif fwriadau pynciol eu cynnwys yn briodol yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r ddogfen hon yn gryno sy'n nodi prif flaenoriaethau'n glir, ynghyd â chyfrifoldebau gweithredu. Mewn mannau, nid yw'r bwriadau yn y cynllun datblygu ysgol yn ymwneud yn ddigonol â chodi safonau a phrin yw'r defnydd o feini prawf meintiol ar gyfer mesur effaith.

Mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu broffesiynol, gan gynnwys dechrau sefydlu cyswllt ag ysgolion eraill. Mae rhywfaint o gysylltiad yn parhau gyda'r ysgolion eraill fu'n rhan o beilot y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac mae'r ysgol yn datblygu cymuned ddysgu'n ymwneud â gwella darllen gydag ysgol gyfagos.

## Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ymestyn profiadau dysgu disgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau cangen leol Merched y Wawr yn ymwelwyr cyson i ddosbarthiadau ac mae eu cyfraniad yn rhan bwysig o gynllun darllen yr ysgol. Cynhelir dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor ar gyfer rhieni a'r gymuned leol. Darperir 'crêche' fel rhan o hyn.

Ers ei sefydlu yn ystod Chwefror 2009, mae'r pwyllgor 'Ysgolion yn Canolbwyntio ar y Gymuned', sy'n is-bwyllgor o'r corff llywodraethol, wedi bod yn flaengar wrth ddefnyddio cyllid y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifainc i gynnal dosbarthiadau rhiantu a hyrwyddo prosiectau amgylcheddol o fewn y gymuned. Elfen nodedig arall o waith y grŵp yw'r modd y defnyddiwyd llythyr disgybl at yr awdurdod lleol yn pryderu am ddiogelwch ar y ffordd i'r ysgol fel sbardun i gydweithio

rhwng asiantaethau.  Mae hyn wedi arwain at gefnogaeth yr awdurdod lleol ac at gais am gyllid i wella’r system drafnidiaeth o amgylch y pentref.

Mae athrawon yr ysgol yn cyd-gynllunio’n briodol gyda’r ysgol feithrin leol a rhieni i sicrhau cyfnod trosglwyddo llwyddiannus i’r dosbarth derbyn sy’n adeiladu ar gyflawniadau blaenorol y disgyblion.  Mae athrawon yr ysgol yn gweithio’n agos gydag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i gynllunio profiadau dysgu a chymdeithasol gwerthfawr sy’n hwyluso cyfnod pontio disgyblion blwyddyn chwech i’r ysgol uwchradd.  Mae hyn yn cynnwys paratoi pecynnau safoni ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod allweddol a gweithgareddau prosiect mewn meysydd megis hanes, daearyddiaeth ac addysg grefyddol.

Mae gwefan ddeniadol a lliwgar yr ysgol yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ar gyfer rhieni a rhanddeiliaid.  Mae perthynas weithiol effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a rhieni sy’n sicrhau fod gan rieni wybodaeth gyfredol am gynnydd disgyblion, strategaethau dysgu newydd a themâu’r tymor.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol ddigonedd o adnoddau dysgu a staff, ac mae’n gwneud defnydd effeithiol ohonynt.  Nodwedd dda yw’r modd y manteisia’r ysgol ar arbenigedd drwy ryddhau rhai arweinwyr pwnc i ddysgu mewn dosbarthiadau eraill yn ogystal â’u dosbarthiadau eu hunain.  Mae’r cymorthyddion dosbarth yn cael eu defnyddio’n effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae trefniadau priodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad staff.

Mae rheolaeth ofalus ar gyllideb yr ysgol.  Mae symiau penodol yn cael eu clustnodi ar gyfer gweithredu bwriadau cynlluniau datblygu ac mae gwariant yn cael ei adolygu’n rheolaidd.  Defnyddia’r ysgol arbedion o’r gyllideb i bwrpasau penodol, gan gadw symiau priodol o gyllid wrth gefn.

Mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion ac yn ei defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Llenwodd tua 33% o rieni neu ofalwyr yr holiadur. Yr oedd bron pob un ohonynt wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol, ac yn meddwl bod eu plant wedi ymgartrefu’n dda yn yr ysgol. Yr oedd pob un yn datgan bod eu plentyn/plant yn hoffi’r ysgol ac yn teimlo’n ddiogel yno. Roedd bron pob un ohonynt yn credu bod yr addysgu’n dda a’u bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn/plant. Yn yr un modd maent yn credu bod disgyblion yr ysgol yn ymddwyn yn dda, a’i bod yn cael ei rhedeg yn dda. Yr oedd llawer o’r rhieni’n meddwl bod dull yr ysgol o ymdrin â chwynion yn dda, a bod eu plant yn derbyn cymorth priodol pan mae ei angen. Mae ychydig o’r rhieni yn ansicr â pha mor dda mae’r ysgol yn paratoi eu plentyn/ plant ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol nesaf. Fodd bynnag, mae bron pob un yn teimlo y gallant drafod materion sy’n peri pryder yn hawdd gyda’r ysgol.

### Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr

Ymatebodd 101 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i’r holiadur ac ar y cyfan mae eu hymateb yn bositif iawn. Mae pob un o’r disgyblion yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu i gadw’n iach a bod athrawon a staff eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob un yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu eu bod yn gwneud yn dda. Maent yn deall yn iawn pwy i siarad â hwy os oes angen ac yn credu bod yr ysgol, bod digon o adnoddau ar gael iddynt a bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall gwaith ysgol yn well. Yn ogystal, maent yn gwybod at bwy i droi ato os ydynt yn poeni am rywbeth a bod yr ysgol yn delio’n dda gyda unrhyw achos o fwlio. Mae llawer ohonynt yn credu eu bod yn gallu gwneud eu gwaith gan fod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac ar amseroedd eraill.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Alan Wyn Parry | Arolygydd Lleyg |
| Geraint Wyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dafydd Idriswyn Roberts (Pennaeth) | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |